# Blaenoriaeth 1: Ymgysylltu

| Blaenoriaethau'r Tasglu | Beth sy'n cael ei wneud… |
|---|---|
| Ymgysylltu o ddifrif â chymunedau'r cymoedd i ddatblygu blaenoriaethau'r tasglu. | Datblygwyd Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu i'r tasglu. Lluniwyd amserlen o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymweliadau wedi'u targedu yn y dydd gyda chynulleidfaoedd a themâu penodol, a digwyddiadau cyhoeddus min nos. Arweinir pob cyfarfod gan Weinidog neu Ysgrifennydd Cabinet gyda chymorth aelodau'r tasglu, arweinwyr ALl a phrif weithredwyr. Cynhaliwyd digwyddiadau gyda busnesau, pobl ifanc a rhieni a threfnwyd mwy ar gyfer Chwefror - Mai. Bydd y cyfarfodydd hyn yn helpu i nodi unigolion/aelodau'r gymuned a fydd yn dod yn aelodau o Banel Pobl y Cymoedd. Dechreuwyd cyfrifon Facebook a Twitter gyda'r hashnod #trafodycymoedd. Bwriedir cael sesiwn fewnol i staff Llywodraeth Cymru. |
| | Cyhoeddwyd manyleb am gontractwr allanol i gynnal rhaglen ymgysylltu sy'n seiliedig ar ddulliau ansoddol ac ethnograffig. Byddant hefyd yn crynhoi a dadansoddi'r holl ddata a gasglwyd o'r gweithagreddau ymgysylltu. |
| Cydweithio â rhanddeiliaid allanol i weithredu a datblygu blaenoriaethu'r tasglu. | Cafodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gyfarfod ag arweinwyr CLlLC ym mis Tachwedd i drafod y prif flaenoriaethau a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio. |
| | Cynhelir cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol - hyrwyddwyr gwrth-dlodi, arweinwyr ALl, Prif Weithredwyr ALl a Byrddau Iechyd Cyhoeddus i ledaenu gwybodaeth a dechrau ymgysylltu. |
| | Gweithio gyda'r Prosiect Pobl Ifanc i sicrhau ffocws cryf ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc y cymoedd. Mae digwyddiadau ymgysylltu'n cael eu trefnu gyda'r Fforwm Pobl Ifanc. |
| Dysgu o'r hyn a wnaed eisoes a beth sydd ar gael yn barod. | Cynhelir adolygiad o dystiolaeth i edrych ar ymgysylltu blaenorol a chyfredol gyda chymunedau'r cymoedd o ran "beth sy'n bwysig" yn lleol yn cynnwys data ar lesiant ac Arolwg Cenedlaethol. |
| | Cynhaliwyd adolygiad o ymgynghoriadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru i nodi canfyddiadau sy'n berthnasol i'r tasglu. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau ar y cynnig gofal plant newydd a'r ymagwedd newydd at gymunedau cryf. |
| | Mae gwaith yn mynd rhagddo i weld sut gallwn ddefnyddio technoleg ddigidol a data yn well i deall anghenion a blaenoriaethau lleol. |
| Bod yn glir am beth fydd y tasglu'n ei gyflawni. Ffocws penodol ar fonitro a gwerthuso. | Lluniwyd safle mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a dangosfwrdd i fonitro setiau data allweddol, canlyniadau poblogaeth a mesurau perfformiad penodol. |
| | Cyflwynwyd cynlluniau i werthuso rôl y tasglu yn barhaus ac i fontiro cynnydd amcanion allweddol. |

# Blaenoriaeth 2: Swyddi a Sgiliau

| Blaenoriaethau'r Tasglu | Beth sy'n cael ei wneud… |
| --- | --- |
| Mae diogelu a chreu swyddi newydd yn hanfodol i'r cymoedd. | Cytundeb gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ddatblygu Cynllun Swyddi i'r cymoedd a fydd yn darparu 10,000 o swyddi o ansawdd i bobl y cymoedd. |
| | Datblygu cynllun gofodol i'r cymoedd a fydd yn nodi tua phum hyb strategol 'parod am y farchnad'. |
| | Rydym wrthi'n trafod gyda Gwerth Cymru budd i gymunedau a dadansoddi gan ddefnyddio'r Adnodd Budd i Gymunedau i ystyried ymarfer a chyfleoedd. |
| | Cynhaliwyd gweithdy Swyddi Gwell, Agosach i'r Cartref gyda'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth. Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau dau hyb cyflogaeth newydd. |
| | Ymgysylltu parhaus gyda Trafnidiaeth Cymru ynghylch y Metro a chysylltiadau ag amcanion Cynllun Cyflogadwyedd drafft Cymru. |
| | Bydd cynlluniau peilot gofal plant yn cynnwys dau awdurdod lleol yng Nghymoedd y De (RhCT a Blaenau Gwent). |
| Mae cynyddu sgiliau cyflogadwyedd yn allweddol i gefnogi adfywiad Cymoedd y De. | Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Cynllun Cyflogadwyedd newydd ddechrau 2017. Rhoddir ystyriaeth i sut bydd y cymoedd yn cael eu defnyddio i brofi'r dull newydd o ddarparu cymorth. Bydd yn cynnwys ffocws arbennig ar gefnogi pobl i gael swyddi, eu cadw a symud ymlaen yn eu gyrfa. |
| | Datblygir Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cynllun Cyflogadwyedd Cymru hefyd ddechrau 2017. Caiff blaenoriaethau a nodir yn Uwchgynhadledd Swyddi Tasglu'r Cymoedd eu cynnwys yn y ffrydiau gwaith craidd. |
| | Datblygu dull newydd o ymchwilio i ddyfodol ein cymoedd yn sgil creu Rhaglen Rhannu Prentisiaethau. Bydd hon yn cynnwys ffocws ar bynciau STEM allweddol neu bynciau cymeradwy lle nodwyd methiant yn y farchnad. |
| | Mae Coleg y Cymoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Prifysgol De Cymru a Llywodraeth Cymru'n trafod i weld sut gellir cefnogi gofalwyr i symud ymlaen mewn amrywiaeth eang o yrfaoedd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. |

# Blaenoriaeth 3: Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig a Gwell

| Blaenoriaethau'r Tasglu | Beth sy'n cael ei wneud… |
|---|---|
| Ffocws penodol ar ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig ac integredig ar lefel leol. | Disgwylir i'r tri chynllun peilot (yn Glynrhedynog, Llanhiledd a'r Cymer) gychwyn ddechrau Chwefror. Bydd uwch was sfili yn cael ei bennu i bob ardal beilot, a fydd yn adrodd yn ôl i Fforwm Cyfarwyddwyr Polisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ac i roi atebion ar waith. |
| | Gwybodaeth gefndir a setiau data allweddol yn cael eu llunio ar gyfer pob ardal beilot. |
| Sicrhau bod blaenoriaethau'r tasglu'n cyd-fynd ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. | Datblygwyd gweledigaeth ar gyfer y cymoedd sy'n amlinellu prif nodau'r tasglu. Ailddiffinnir cynlluniau gwaith manylach ar gyfer pob maes blaenoriaeth ar ôl ymgysylltu. Y nodau yw swyddi a sgiliau, gwasanaethau cyhoeddus integredig a gwell, yr amgylchedd a llesiant. |
| | Mae swyddogion yr adran addysg wedi cyfarfod ag uwch aelodau'r Consortia Rhanbarthol yn y cymoedd i nodi cyfleoedd. Darperir diweddariad yng nghyfarfod y tasglu ar 2 Chwe a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth am wella gwasanaethau cyhoeddus. |
| | Mae swyddogion yr adran iechyd wedi cyfarfod ag uwch swyddogion o'r byrddau iechyd yn y cymoedd i nodi cyfleoedd. Darperir diweddariad yng nghyfarfod y tasglu ar 2 Chwef a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth ar wella gwasanaethau cyhoeddus. |
| | Cynnal digwyddiad gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i nodi cyfleoedd cydweithio. Darperir diweddariad yng nghyfarfod y tasglu ar 2 Chwef a chaiff ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth ar wella gwasanaethau |
| | Rhoddwyd sylw i astudiaeth beilot Asedau Cyhoeddus Cwm Taf yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn awyddus i rannu dysgu ac edrych ar gynlluniau i ehangu'r cynllun peilot yn y cymoedd, gyda chyllid o £2 filiwn. |
| | Mae swyddogion ystadegau wedi datblygu ffin amlinellol ar gyfer monitro a chasglu data yn benodol. O fewn y ffin hon, cwblhawyd gwaith eisoes i fapio gwasanaethau allweddol ar gyfer y cymoedd, yn cynnwys y Metro ac ysgolion. |
| Ffocws ar sicrhau bod Bargen Ddinesig a Dinas-ranbarthau yn dod â'r manteision gorau posibl i Gymoedd y De. | Cafwyd ffocws parhaus ar sicrhau cysondeb â'r Bargeinion Dinesig a'r Dinas-ranbarthau. Ystyrir cael rhywun o Ddinas-ranbarth Abertawe i fod yn aelod o'r tasglu. Mae cynrychiolydd o Fargen Dinas Caerdydd nawr yn mynychu Bwrdd Tasglu'r Cymoedd. Byddwn yn chwilio am aelod o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe. |